# HOWELLS, HOWELL (1750 - 1842), clerigwr Methodistaidd

**Enw:** Howell Howells
**Dyddiad geni:** 1750
**Dyddiad marw:** 1842
**Priod:** Howells (née Samuel)
**Priod:** Howells (née Thomas)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr Methodistaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 12 Mai 1750 yn Ystradgynlais, Brycheiniog. Ymunodd yn ieuanc â seiat y Methodistiaid, a dechreuodd bregethu pan oedd ar daith gyda John Evans, Cil-y-cwm, yn y Gogledd. Addysgwyd ef yn ysgol Llanddowror c. 1778. Ordeiniwyd yn ddiacon yn 1781; ' Curate of Ystradgynlais ' y gelwir ef pan gafodd urdd offeiriad yn 1782. Dywedir iddo wasanaethu wedyn yng Nglyncorrwg, ond aeth i S. Nicholas, Bro Morgannwg, yn ddiweddarach. Cymdeithasodd lawer yno â David Jones, Llan-gan, a daeth i wrthdarawiad â pherson y plwyf oherwydd ei Fethodistiaeth. Cafodd le fel curad Llanddiddan Fach, ger Trehyl, a deuai Methodistiaid y fro ato'n dyrfaoedd yno i gymuno. Gorfu iddo roi'r lle i fyny yn 1818, ac o hynny hyd ei farw ar 19 Ionawr 1842 fe ymlynodd wrth y Methodistiad, gan gymryd rhan yn aml yn eu sasiynau ordeinio. Bu'n briod ddwywaith, (1) â Miss Thomas, merch offeiriad Tresimwn, a (2) â Miss Samuel o'r Bont-faen.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


T. Morgan, *Galarnad ar ôl y Parchedig Howell Howells, gynt o Drehill, Swydd Forganwg, yr hwn a fu farw ar y 19eg o Ionawr MDCCCXLII, yn y 92 flwydd o'i oed* (Caerdydd 1842), 1842

*Y Drysorfa*, 1842, 161-3

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), ii, 300-5

*The Episcopal Registers of the Diocese of St. David's, 1397–1518* (1917–20), No. 5


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733181

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu